Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
Care and Social Services Inspectorate Wales

# Ecsbloetio plant

## Gweithio aml-asiantaeth lle mae plant yn cael eu lleoli mewn lleoliadau preswyl y tu allan i'r sir, yn mynd ar goll ac sydd mewn perygl o ddioddef camfanteisio rhywiol

Adroddiad uwchgynhadledd
a gynhaliwyd gan Heddlu De Cymru
ac AGGCC ar 3 Mai 2017

© Hawlfraint y Goron 2017
WG32392 ISBN digidol 978-1-78859-073-0

## Cyd-destun

Mae Heddlu Gogledd Cymru wedi lleisio fwyfwy o bryder ynghylch pa mor aml y maen nhw'n gorfod ymweld â chartrefi preswyl i ymdrin â phlant coll ac achosion o ymddygiad ymosodol a difrod troseddol.

Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) hefyd wedi dod yn fwyfwy pryderus o ran y lefelau uchel o hysbysiadau ynghylch ymddygiad plant a pha mor agored i niwed ydynt pan nad ydynt yn y cartref plant. Yn aml, bydd arolygiadau o gartrefi plant yn amlygu'r effaith y mae cyfraddau uchel o drosiant staff yn ei chael ar blant a'r anawsterau o ran cael gafael ar y lefel ofynnol o staff cymwys. Rydym hefyd yn ymwybodol o blant sy'n cael eu lleoli heb wasanaethau statudol a therapiwtig cytunedig.

Mae pob asiantaeth yn fwyfwy ymwybodol o gamfanteisio'n rhywiol ar blant a'r amrywiaeth o risgiau eraill i bobl ifanc. Dadleuir a ddylid rhoi blaenoriaeth i leoli plentyn yn agos i'w gartref ynteu ei roi mewn lleoliad 'arbenigol' sydd gryn bellter i ffwrdd yn aml. Rydym yn fwyfwy ymwybodol o'r pwysau o ran capasiti ym mhob math o letyau i blant sy'n derbyn gofal a'r goblygiadau ariannol o leoliadau cost uchel. Mae'r ddau ffactor hyn yn effeithio ar ystyr 'dewis' i awdurdodau lleol a phlant a phobl ifanc.

Mae'r uwchgynhadledd hon yn ffurfio rhan o ymateb AGGCC i argymhellion adroddiad y Comisiynydd Plant, 'Y Gofal Cywir' (Mehefin 2016). Mae AGGCC a Heddlu De Cymru yn aelodau o grŵp gorchwyl a gorffen Llywodraeth Cymru ar ofal preswyl. Mae'r grŵp hwn yn adrodd i Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar wella'r canlyniadau i blant sy'n derbyn gofal. Darparodd yr unwchgynhadledd gyfle i gael barn amrywiaeth eang o weithwyr proffesiynol perthnasol ar weithio amlasiantaeth a gofal preswyl o ansawdd. Mae'r adroddiad hwn yn cyfrannu at lif gwaith y grwpiau llywodraethol hyn.

Mae'r argymhellion canlynol yn seiliedig ar adborth y rhai hynny a aeth i'r uwchgynhadledd.

## Argymhellion

- Dylid llunio canllaw Llywodraeth Cymru ar broses ac arfer cyn gynted ag y bo'n ymarferol i wella gwaith amlasiantaeth pan fydd plant yn cael eu lleoli y tu allan i'r ardal. Dylai hwn osod disgwyliadau eglur a gwell ar gyfer gwneud penderfyniadau ar y cyd a llwybrau atebolrwydd clir.

- Dylai'r canllaw hwn amlinellu disgwyliadau manwl ar rannu gwybodaeth rhwng gweithwyr proffesiynol am blant a leolir y tu allan i ardal fel atodiad i Ran 6 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

- Dylai pob cartref plant sicrhau bod ganddo wybodaeth ddigonol am blentyn, o'r adeg y daw i'r cartref, i'w darparu i'r heddlu os adroddir ei fod ar goll, a

dylai hyn gynnwys llun.

- Dylai fod ymdrech bendant i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o risgiau a rheoli risgiau plant er mwyn meithrin dull gweithredu rhyngasiantaeth cyson.

- Dylai comisiynwyr, darparwyr a Llywodraeth Cymru barhau i ystyried yr effaith y mae prinder lleoliadau priodol yn ei chael ar blant ag anghenion cymhleth. Mae hyn yn arwain at ddiffyg dewis gwirioneddol, sydd ei angen i sicrhau bod penderfyniadau yn cael eu gwneud ar sail anghenion y plentyn unigol.

- Yn anad dim, mae'n rhaid i ddarparwyr sicrhau bod cartrefi plant yn darparu amgylchedd gofalgar a sefydlog, gan roi cryn bwyslais ar reoli ar sail gwerth a staff sydd wedi'u hyfforddi'n rhagorol. Mae'n rhaid i gomisiynwyr, AGGCC a Gofal Cymdeithasol Cymru fod yn fodlon bod y sylfaen hon ar gyfer darparu gofal ar waith mewn lleoliadau plant cofrestredig.

- Mae angen i awdurdodau lleol a darparwyr wneud mwy o hyd i gynnwys plant a phobl ifanc yn ystyrlon wrth gynllunio eu gofal – a chaiff hyn ei gyflawni trwy feithrin perthnasau proffesiynol cyson ac ymdrechgar â phobl ifanc.

- Mae angen canllaw Llywodraeth Cymru diwygiedig ar ymyriad corfforol cyfyngol er mwyn ennyn mwy o eglurder a hyder ar draws y sector preswyl a gwella dealltwriaeth amlasiantaeth.

**Y digwyddiad**

Cyd-lywyddodd AGGCC a Heddlu De Cymru yr uwchgynhadledd yn Stadiwm y Principality yng Nghaerdydd ar 3 Mai 2017. Roedd 120 o weithwyr proffesiynol yn bresennol: darparwyr gofal preswyl, cynrychiolwyr o luoedd heddlu Cymru, awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru, swyddfa'r Comisiynydd Plant, AGGCC a'r trydydd sector.

Cafwyd anerchiadau yn yr uwchgynhadledd gan Dr Sally Holland, y Comisiynydd Plant, Jon Drake, y Dirprwy Brif Gwnstabl, a Gillian Baranski, y Prif Arolygydd. Rhoddwyd nifer o gyflwyniadau byr gan weithwyr proffesiynol amrywiol, gan gynnwys darparwyr, ac roeddem yn arbennig o falch bod dyn ifanc a oedd wedi gadael gofal wedi cytuno i siarad â ni am ei brofiad.

Nod y cyflwyniadau oedd sbarduno trafodaeth a diben y digwyddiad oedd cael barn cyfranogwyr er mwyn dylanwadu ar y gwaith gan Lywodraeth Cymru a amlinellwyd uchod a hysbysu'r gwaith hwn. Rydym yn ddiolchgar iawn, felly, i'r holl rai hynny a ddaeth i'r digwyddiad, sydd wedi arwain at yr adroddiad hwn.

**Camau gweithredu a gymerwyd ers y digwyddiad**

Rydym yn cadarnhau cytundeb gwybodaeth sy'n caniatáu i AGGCC gael gwybodaeth gan Heddlu De Cymru am alwadau allan i gartrefi plant ac i rannu gwybodaeth berthnasol a fydd yn hysbysu gwaith arolygu AGGCC.

**Methodoleg**

Cyflwynwyd pedwar cwestiwn gosodedig i grwpiau o ddisgyblaethau cymysg a chofnodwyd yr atebion gan ddefnyddio'r system sffêr cyfarfod. Dadansoddwyd yr atebion a chyflwynir hyn fel Atodiad. Darperir amlinelliad manwl o'r atebion a roddwyd isod.

**Canfyddiadau manwl**

Y cwestiwn cyntaf a ofynnwyd i gyfranogwyr oedd:

1. **Beth yw'r rhwystrau i waith amlasiantaeth effeithiol o ran pobl a leolir y tu allan i ardal sy'n mynd ar goll ac sydd mewn perygl o niwed a chamfanteisio?**

Mae'r themâu a nodir isod yn nhrefn amlder yr atebion (nifer uchaf o atebion yn gyntaf). Unwaith yn unig y cyflwynwyd rhai atebion, a rhestrir y rhain isod.

- **Ansicrwydd ac amharodrwydd o ran rhannu gwybodaeth**
  Gwelir bod diffyg eglurder ynghylch pwy sy'n gyfrifol am rannu gwybodaeth gydag asiantaethau eraill, h.y. yr awdurdod lleol sy'n lleoli neu'r darparwr, lle y mae plant a phobl ifanc yn cael eu lleoli. Mae amharodrwydd i ddarparu gwybodaeth lawn i ddarparwyr oherwydd gallai hyn effeithio ar a fydd unigolyn ifanc yn cael ei dderbyn ar gyfer y lleoliad. Crybwyllodd un unigolyn yr anawsterau posibl o ran rhannu gwybodaeth rhwng awdurdodau'r heddlu. Nododd bobl yr angen i gydbwyso hawl plant a phobl ifanc i breifatrwydd â rhannu gwybodaeth gefndirol bersonol er mwyn hyrwyddo diogelwch a llesiant. Soniwyd am hyn yn arbennig o ran darparu gwybodaeth i'r heddlu.

- **Diffyg ymwybyddiaeth gan weithwyr proffesiynol o sut mae'r system yn gweithredu o ran rheoli plant a phobl ifanc a leolir y tu allan i'r sir**
  Nododd llawer o bobl nad oeddent yn gwybod pa weithwyr proffesiynol ddylai fod yn rhan o'r penderfyniad. Mae dryswch ynghylch y gwahanol ffiniau daearyddol gan awdurdodau heddlu, iechyd a lleol. Mae hefyd diffyg dealltwriaeth ynghylch plant a leolir o Loegr a'r gwahanol ddeddfwriaeth sy'n rheoli hyn. Yn yr un modd, mae diffyg gwybodaeth am leoli plant o Gymru yn Lloegr. Nid oedd rhai pobl yn teimlo eu bod wedi datblygu perthnasau proffesiynol digonol gyda'r rhai hynny o wahanol awdurdodau/asiantaethau

sy'n cynorthwyo gweithio rhyngasiantaeth effeithiol.

- **Diffyg gwybodaeth gefndirol ar gael am blant a phobl ifanc. Nid yw'r wybodaeth yn cael ei darparu gan yr awdurdod lleol sy'n lleoli a/neu nid yw ar gael i asiantaethau eraill**
  Nodir lleoliadau brys fel her benodol wrth rannu gwybodaeth dda rhwng asiantaethau; weithiau, caiff plant a phobl ifanc eu lleoli heb wybodaeth ategol. Mae darparwyr/rheolwyr cofrestredig yn teimlo dan bwysau i dderbyn plant a phobl ifanc unigol a gall yr wybodaeth fod yn araf yn cyrraedd y darparwr a'r asiantaethau lleol ar ôl i'r lleoliad cael ei wneud. Nid oes digon o wybodaeth ofynnol ar gael i'r heddlu pan adroddir bod plant a phobl ifanc ar goll, yn enwedig gyda'r nos, ac nid yw'n cynnwys pethau sylfaenol fel llun. Nodwyd hefyd diffyg capasiti mewn timau dyletswydd argyfwng fel rhwystr i ymateb yn amserol pan fydd lleoliadau yn aflwyddiannus.

- **Prinder lleoliadau priodol, gan gynnwys lleoliadau diogel**
  Mae pobl yn teimlo bod prinder lleoliadau yn arwain plant a phobl ifanc i gael eu lleoli yn bellach i ffwrdd o'u cymuned leol a'u teulu. Gall hefyd olygu nad yw'r gweithiwr cymdeithasol sy'n lleoli yn ymweld cymaint â'r plentyn neu unigolyn ifanc ac nad yw'n ffurfio perthynas â'r staff preswyl. Golyga hyn nad yw'r rhai hynny sy'n rheoli'r lleoliadau yn gwybod barn y plentyn gystal na'i gynnydd a'i lesiant. Mae diffyg capasiti yn y farchnad yn golygu ei fod yn fwy tebygol y bydd lleoliadau amhriodol yn cael eu gwneud, a gaiff eu llywio gan ddiffyg dewisiadau eraill ac ystyriaethau ariannol.

- **Diffyg protocol lleol cytunedig rhwng asiantaethau**
  Mae diffyg rolau sy'n cael eu deall a'u cytuno rhwng awdurdodau lleol sy'n lleoli ac awdurdodau lleol sy'n lletya – er enghraifft, wrth drefnu cyfarfodydd strategol. Cred pobl fod diffyg synnwyr o nodau a rennir rhwng asiantaethau, gan gynnwys y darparwr.

- **Diffyg asesiadau risg cadarn ar blant a phobl ifanc**
  Mae pobl yn poeni nad yw plant a phobl ifanc yn cael asesiad risg digonol cyn y caiff lleoliadau eu gwneud nac yn cael eu hadolygu yn rheolaidd wedi hynny. Nid yw risgiau yn cael eu cyfathrebu'n ddigonol i'r awdurdod lleol lle y caiff y plentyn neu'r unigolyn ifanc ei leoli. Mae rhai pobl yn poeni bod awdurdodau lleol sy'n lleoli yn tanbwysleisio'r risgiau fel bod atgyfeiriadau lleoli yn cael eu derbyn.

- **Atebion a gyflwynwyd unwaith yn unig, ond a allai fod yn bwysig**
  Plant a phobl ifanc yn cael eu paratoi yn wael ar gyfer symud lleoliad. Mae hyn yn effeithio'n negyddol ar symudiadau llwyddiannus a meithrin perthynas â'r staff yn y cartref plant newydd.

Plant o Loegr yn cael eu lleoli heb asesiad camfanteisio'n rhywiol ar blant (cyfwerth â SERAF).

Mae diffyg ymwybyddiaeth o’r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid a phobl ifanc.

Pwysau amser ar weithwyr cymdeithasol i gasglu'r holl wybodaeth berthnasol ynghyd i'w phasio ymlaen i eraill pan gaiff plant a phobl ifanc eu lleoli allan o ardal.

Gall problemau adnoddau sydd gan yr awdurdod lleol sy'n lletya ac asiantaethau lleol effeithio ar flaenoriaethu a’r 'empathi' tuag at blant a phobl ifanc a leolir yn eu hardal.

Mae plant a phobl ifanc sydd wedi symud yn aml yn llai tebygol o gael eu hanghenion wedi'u nodi oherwydd prinder ymyrryd cyson gan CAMHS a gwasanaethau therapiwtig eraill.

Maen nhw hefyd yn llai tebygol o fynd i glybiau chwaraeon a chymryd rhan mewn gweithgareddau cymunedol.

Gall lleoliad cartrefi plant effeithio ar y risgiau i blant a phobl ifanc ac nid yw penderfyniadau cofrestru gan AGGCC yn cael eu hystyried yn ddigonol ar sail gwybodaeth amlasiantaeth.

Mae mwy o risg o hunan-niweidio pan fydd cartrefi wedi'u lleoli mewn ardaloedd gwledig heb ddigon o gysylltiadau ag adnoddau amlasiantaeth.

Ceir diffyg cysondeb o ran yr hyn a olygir gan 'ar goll', ac wrth i blant a phobl ifanc symud ar draws ardaloedd, byddant yn cael ymateb proffesiynol anghyson.

Mae diffyg dealltwriaeth amlasiantaeth o rôl a natur ymyriadau corfforol cyfyngol, yn enwedig rhwng yr heddlu a staff gofal.

Mae rheidrwydd ariannol ar ddarparwyr i dderbyn plant a phobl ifanc nad ydynt o bosibl yn addas ar gyfer eu lleoliad penodol.

**2. Beth sydd ei angen i greu a chyfrannu at waith amlasiantaeth effeithiol ar gyfer y garfan hon o bobl ifanc?**

Mae'r themâu a nodir isod yn nhrefn amlder yr atebion (nifer uchaf o atebion yn gyntaf). Roedd cryn dipyn o gysondeb yn yr atebion.

- **Systemau gwell ar gyfer rhannu gwybodaeth a rheoli risg**
  Mae angen i ni wneud yn siŵr bod yr holl weithwyr proffesiynol perthnasol yn ein rhwydweithiau. Mae angen datrys unrhyw broblemau sy'n ymwneud â chyfrinachedd a diogelu data er mwyn caniatáu i bobl rannu gwybodaeth berthnasol. Mae angen i'r heddlu gael mwy o wybodaeth o'r cychwyn cyntaf am bobl ifanc sy'n cael eu lleoli yn yr ardal. Awgrymwyd y dylid datblygu fformat cytunedig ar gyfer darparu gwybodaeth angenrheidiol.

  Nodwyd y gallai'r heddlu rannu gwybodaeth am gymunedau lleol gyda darparwyr ac AGGCC er mwyn dylanwadu ar leoliad cartrefi plant. Dylai AGGCC barhau i ystyried sut y mae'n ymateb i hysbysiadau gan ddarparwyr a chasglu gwybodaeth gan asiantaethau er mwyn hysbysu ei rôl reoleiddio.

  Mae angen i ni elwa o wybodaeth a dealltwriaeth gweithwyr proffesiynol/gwasanaethau camfanteisio'n rhywiol ar blant. Teimlai bobl fod angen mwy o eglurder a chydnabyddiaeth o rôl yr awdurdod lleol lle y mae'r plentyn neu'r unigolyn ifanc wedi'i leoli. Awgrymwyd y gellid gwneud mwy o ddefnydd o'r ddeddfwriaeth ar fasnachu pobl.

  Mae angen mwy o bwyslais ar systemau amlasiantaeth i reoli risg a gweithio tuag at drothwyon cyffredin ar gyfer goddefiant risg. Mae angen i ni ymateb i ymddygiad peryglus cyn gynhared â phosibl, ond hefyd mewn modd cymesurol a chyson. Dylai darparwyr siarad mwy â'i gilydd pan fo'r cyfeillgarwch rhwng plant mewn gwahanol leoliadau yn effeithio ar risg. Mae angen i ni lunio cynlluniau diogelwch clir i blant a phobl ifanc, gyda throthwyon cytunedig er mwyn uwchgyfeirio i rianta corfforaethol/Prif Weithredwr. Mae angen i ni fanteisio ar yr offer a'r protocolau risg cyfredol ar gyfer plant ifanc sy'n mynd ar goll.

- **System well o wneud penderfyniadau ar y cyd a sefydlu agenda gyffredin**
  Mae atebolrwydd asiantaethau unigol yn thema gref, gan gynnwys y ddyletswydd i herio pan na fydd camau gweithredu cytunedig wedi'u cymryd neu pan na fydd canlyniadau wedi'u cyflawni. Yn yr un modd, roedd pobl eraill eisiau deialog weithio mwy cefnogol rhwng asiantaethau.

  Mae cryn dipyn o blaid datblygu canllaw Llywodraeth Cymru, sef llwybr cenedlaethol cytunedig y gallai gweithwyr proffesiynol ei ddilyn. Nodwyd Gwent fel enghraifft. Mae pobl yn teimlo y byddai hyder proffesiynol yn gwella yn sgil mwy o gymorth strategol gan uwch-reolwyr. Nodwyd yr anawsterau ymarferol o fynd i gyfarfodydd strategol pan fydd pobl ifanc wedi'u lleoli y tu allan i ardal.

  Teimlai bobl fod angen i asiantaethau proffesiynol sefydlu agenda

gyffredin, gan ddechrau trwy gytuno ar y flaenoriaeth o ddiogelu. Mae mwy o ddidwylledd a hyfforddiant amlasiantaeth yn debygol o feithrin cyd-ddealltwriaeth a mwy o gysondeb. Yn benodol, argymhellwyd y dylid cael mwy o ddeialog rhwng yr heddlu a darparwyr a chefnogir yr arfer i heddlu ymweld â chartrefi plant i feithrin perthnasau cadarnhaol. Nodwyd mwy o ddealltwriaeth o gylch gwaith a chyfyngiadau gwahanol rolau a phwerau asiantaeth. Yn olaf, byddai dod i gysondeb sefydliadol ar ddiffiniadau a therminoleg, e.e. 'camfanteisio'n rhywiol ar blant' ac 'ar goll', yn gwella cyfathrebu effeithiol a gweithio ar y cyd.

Galwodd rhai pobl am fwy o dimau integredig neu gyd-leoli i weithio gyda phobl ifanc mewn perygl o fynd ar goll/cael eu camfanteisio'n rhywiol. Nodwyd Canolfannau Diogelu Amlasiantaeth fel enghraifft. Awgrymwyd y gellid cyflwyno timau Pobl Goll yn fwy eang. Cafodd nodi un pwynt cyswllt o fewn pob asiantaeth ei amlygu fel arfer da i gyflawni ymateb sefydliadol cyson ar lefel strategol ac i ganiatâu i rwydweithiau proffesiynol gael eu hadeiladu'n well. Nododd un unigolyn fod 'bobl yn fwy effeithiol na phroses', ond mae'r adborth hwn yn cefnogi pwysigrwydd y ddau.

- **Cael pobl ifanc i gyfrannu yn fwy ystyrlon at benderfyniadau ynghylch eu gofal**
  Teimlai bobl y gellid cyflawni hyn trwy gael mwy o fynediad at wasanaethau eirioli a chadw'r un gweithiwr cymdeithasol a Swyddog Adolygu Annibynnol a gweithwyr proffesiynol allweddol eraill ar gyfer yr unigolyn ifanc. Caiff gweithwyr camfanteisio'n rhywiol ar blant, pan fydd y rhain ar gael, eu hystyried yr un mor ddefnyddiol o ran gwella barn pobl ifanc. Awgrymwyd y byddai mwy yn cymryd rhan wybodus mewn trafodaethau ynghylch gwasanaethau cymorth pe bai mwy o wybodaeth ar gael i blant a staff preswyl am y gwahanol asiantaethau a gwasanaethau sydd ar gael. Mae angen i ni ddatblygu'r pwyslais ar anghenion a chanlyniadau'r plant yn hytrach na disgwyl i'r plentyn 'ffitio i mewn' i'r hyn y gellir ei gynnig gan y cartref plant sydd ar gael.

- **Mwy o ddewisiadau lleoliad i ganiatáu gofal o ansawdd da**
  Mae pobl yn credu y dylid gwneud mwy o ddefnydd o wybodaeth yr heddlu mewn penderfyniadau gan ddarparwyr i leoli gwasanaethau a chan AGGCC yn ei phroses gofrestru. Dylai comisiynwyr sicrhau bod ganddynt wybodaeth gyfredol a chywir am wasanaethau, y gellir ei defnyddio hyd yn oed mewn argyfyngau. Dylai hyn ganiatáu i fwy o bobl ifanc gael eu 'paru' â lleoliadau, yn hytrach na'u gosod yn ôl y cyllid a'r hyn sydd ar gael yn unig. Gall comisiynwyr awdurdod lleol gael eu diweddaru trwy gyfathrebu â Chonsortiwm Comisiynu Plant Cymru (pan fo'n briodol) a dylent fodloni eu hunain yn rheolaidd bod y gwasanaeth yn helpu pobl ifanc i gyflawni canlyniadau a nodwyd.

- **Ailsaernïo'r naratif**
  Cafwyd nifer o sylwadau o dan y pennawd hwn. Nodwyd nad yw 'y tu allan i'r sir' o reidrwydd yn golygu bod plant yn bell i ffwrdd o'u cymuned a gallai ein hiaith fod yn fwy cywir. Yn hytrach na dweud plant sy'n cael eu lleoli yn Lloegr mewn modd negyddol, efallai y byddai'n uchelgais mwy cadarnhaol i ddweud 'plant o Gymru sy'n byw yng Nghymru'. Cawn ein hatgoffa nad problemau i'w rheoli na throseddwyr yw pobl ifanc mewn gofal. Unigolion ag anghenion cymhleth ydynt ac mae gennym ddyletswydd i ofalu amdanynt. Pan fydd angen i bobl ifanc newid ysgolion neu pan fydd eu gweithiwr cymdeithasol yn cael ei adleoli, yr awdurdod lleol ddylai reoli effaith hyn yn hytrach na'r cyfrifoldeb yn cael ei roi ar y plentyn.

3. **Pa agweddau ar gymorth mewn gofal preswyl i bobl ifanc mewn perygl sy'n ei gwneud hi'n fwy tebygol y byddant yn cyflawni canlyniadau cadarnhaol a llesiant gwell?**

Fel uchod, mae'r themâu a nodir yn nhrefn amlder yr atebion (nifer uchaf o atebion yn gyntaf). Roedd cryn dipyn o gysondeb yn yr atebion, gyda'r holl atebion yn syrthio i mewn i'r chwe thema.

- **Trefniadau gofal gofalgar a sefydlog**
  Mae'n hanfodol bod plant a phobl ifanc yn ystyried y lleoliad fel 'cartref' a bod y diwylliant yn un lle yr hyrwyddir cynhesrwydd a pherthnasau cadarnhaol a chryf â'r staff. Mae rôl y gweithiwr allweddol yn bwysig, ond dylai'r holl staff fod yn bobl dosturiol a gofalgar sy'n gallu rhoi 'cwtsh' i'r unigolyn ifanc pan fo'n briodol. Mae'n rhaid i'r lefelau staffio ganiatáu i'r staff gael amser cyswllt unigol sylweddol â'r plant. Mae'n rhaid i'r staff fod yn gyfarwydd i'r plant a chael tîm staff cyson. Mae sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cadw'r un gweithiwr cymdeithasol hefyd yn bwysig o ran cynnal synnwyr o gysondeb a sefydlogrwydd.

  Dylai'r cartref plant efelychu cartref teuluol gymaint â phosibl. Mae'n rhaid i'r gofal deimlo'n ddiamod a dylid lleihau'r posibilrwydd i bobl ifanc deimlo'u bod yn cael eu gwrthod cymaint â phosibl. Caiff 'dyfalbarhad' ei ystyried yn hanfodol, ond cafodd parhau i ystyried plant eraill a gallu'r cartref i ddiwallu anghenion y plentyn hefyd eu crybwyll (er bod llawer llai o bobl wedi nodi hyn). Mae angen i blant a phobl ifanc deimlo'n ddiogel yn eu lleoliad er mwyn gallu ymddiried yn y staff. Ystyriwyd ymddiriedaeth yn elfen hanfodol i blant a phobl ifanc ddatblygu synnwyr o berthyn a synnwyr o ddiben.

- **Gweithwyr gofal preswyl hyfforddedig rhagorol**
  Credwyd fod mynediad at amrediad eang o gyfleoedd hyfforddi yn hanfodol i staff gofal er mwyn iddynt allu deall y plant yn well a defnyddio dulliau gweithredu ymddygiadol neu therapiwtig penodol gyda phlant unigol.

Awgrymodd rhai gymorth clinigol i staff er mwyn caniatáu mwy o ymarfer gwybodus a myfyriol. Er bod y rheoliadau cyfredol yn nodi bod yn rhaid i 80% o staff preswyl gael y cymhwyster perthnasol, roedd llawer yn cydnabod ei bod hi'n anodd cyflogi cymaint â hynny o staff cymwys. Gwnaeth nifer o bobl gwestiynu statws y rôl ac a oedd y cyflog yn ddigonol i ddenu a chadw staff. Cydnabu llawer y cyfrifoldeb sydd gan staff i arddangos ymddygiad a pherthnasau cadarnhaol a bod yn ymwybodol o ffiniau priodol. Mae'n rhaid i staff ennyn hyder mewn pobl ifanc y gallant gyflawni eu nodau. Mae'r rôl yn gofyn am egni a chwilfrydedd i ddeall plant yn drwyadl a bod yn ymatebol i'w hanghenion. Mae angen i staff gael gwydnwch personol ac mae gan y rheolwr rôl bwysig o ddarparu cymorth.

Mae gwybodaeth a sgiliau'r rheolwr yn cael effaith fawr ar forâl a hyder plant a staff. Awgrymodd un unigolyn y gallai rheolwyr cofrestredig ymgymryd â chyfleoedd cysgodi yn yr heddlu, gwasanaethau cymdeithasol, addysg ac ati er mwyn deall gwaith asiantaethau eraill yn well. Gellid awgrymu'r un peth efallai ar gyfer gweithwyr proffesiynol eraill.

- **Cynllunio gofal unigol yn dda**
  Nododd nifer o bobl bwysigrwydd cynlluniau gofal unigol trwyadl sy'n cydnabod unigrywiaeth y plentyn neu'r unigolyn ifanc ac sy'n cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae hyn yn cynnwys adolygu pa mor briodol yw'r lleoliad cyfredol. Mae angen i weithwyr proffesiynol adnabod y plentyn yn dda er mwyn cynllunio'n dda a deall yr hyn sydd wrth wraidd ymddygiad neu drallod emosiynol. Gellir trefnu gwaith uniongyrchol priodol a chytuno ar dargedau y gellir eu cyflawni â'r unigolyn ifanc. Gwnaeth llawer o bobl grybwyll hygyrchedd CAMHS a'r adnoddau i gyflogi arbenigwyr eraill. Er y nodwyd pwysigrwydd asesiadau risg, siaradodd y mwyafrif o'r ymatebwyr am yr angen i wybod a deall y plentyn er mwyn sicrhau bod yr help cywir yn cael ei roi.

  Crybwyllodd dau unigolyn fod system Casnewydd, lle y mae gan y plentyn un bwynt cyswllt, yn hytrach na mewnbwn gan amrywiaeth o wahanol weithwyr proffesiynol, yn arfer da y gellid ei ystyried yn fwy eang. Nodwyd hefyd y cynlluniau pontio ar gyfer plant sy'n gadael lleoliad penodol a'r system ofal.

- **Cynnwys plant a phobl ifanc**
  Cytunwyd y dylem wrando mwy ar blant a phobl ifanc mewn gofal preswyl a gweithredu ar yr hyn y maen nhw'n ei ddweud wrthym. Dylent fod yn gwbl weithredol yn eu cynlluniau gofal. Dylem roi mwy o ystyriaeth i'w barn nhw ar eu hymddygiad eu hunain, e.e. beth sy'n eu tawelu pan fyddant yn teimlo'n orbryderus. Dylem ddod i gytundeb â nhw pan fo'n bosibl, gan roi esboniadau clir pan na fyddwn yn gallu bodloni eu dymuniadau. Er mwyn ymgysylltu'n ystyrlon â phobl ifanc, mae angen i weithwyr proffesiynol gymryd yr amser i ddod i'w hadnabod. Gall eiriolaeth (ffurfiol ac anffurfiol) gryfhau ein dealltwriaeth o safbwyntiau plant. Dylem ystyried defnyddio mwy o

drefniadau mentora. Mae angen i ni barhau i ystyried yr iaith yr ydym yn ei defnyddio, fel bod plant yn ein deall, a hefyd i ystyried y neges yr ydym yn ei chyfleu, h.y. cyfeirio at gartref plant fel 'uned'.

- **Nodweddion pwysig y cartref plant**
  Mae'r canlynol yn agweddau penodol ar gartref plant y nododd pobl fel pethau sy'n cyfrannu at allu plant i gyflawni canlyniadau cadarnhaol.

  - Gwneud y pethau a nodir ar bapur, h.y. bod y cartref yn gweithredu yn unol â'i Ddatganiad o Ddiben, fel bod comisiynwyr yn hyderus â'r hyn sy'n cael ei ddarparu
  - Addysg ar hunan-ofal, rhyw a pherthnasau
  - Mynediad at wasanaethau iechyd a therapiwtig
  - Gweithgareddau diddorol ac ysgogol a staff sy'n treulio amser gyda'r plant a'r bobl ifanc
  - Cyfweliadau myfyrgar
  - Polisi clir ar ddefnyddio ymyriad corfforol cyfyngol (ataliaeth) a hyfforddiant i staff
  - Polisi clir ar reoli ymddygiad, staff hyderus, wedi'u hyfforddi'n dda, i gyflawni'r dull gweithredu hwn ac osgoi troseddu diangen
  - Dulliau gweithredu adferol
  - Cymorth i blant sy'n gadael.

  Dylai'r darparwr wybod pa wasanaethau ac adnoddau lleol sydd ar gael i'r plant a leolir cyn i'r cartref gael ei gofrestru. Mae angen i'r rheolwr fod yn gadarn o ran dim ond derbyn plant a phobl ifanc y mae'n hyderus y gall y tîm staff eu helpu i gyflawni canlyniadau cadarnhaol.

- **Ffactorau allanol**
  Amlygwyd pwysigrwydd addysg a sicrhau bod trefniadau ar waith i bobl ifanc mewn gofal preswyl. Mae'n bosibl y bydd angen defnyddio dull addysgu wedi'i deilwra, gan gynnwys cyfleoedd hyfforddi academaidd a galwedigaethol.
  Cydnabyddir cyfyngiadau ariannol a diffyg lleoliadau addas. Mae ffactorau sylweddol sy'n effeithio ar ddewisiadau a wneir. Teimlai rhai fod natur busnes cartrefi plant yn golygu y gallai darparwyr dderbyn pobl ifanc na allent fod yn ddigon parod i ofalu amdanynt o bosibl.

  Nodwyd pwysigrwydd cyfrifoldebau rhianta corfforaethol gan nifer o bobl. Credai pobl y gellid codi ymwybyddiaeth o hyn ac y gallai aelodau etholedig gael budd o hyfforddiant ar faterion gofal plant. Amlygwyd y pwysigrwydd o gael perthynas dda rhwng darparwyr a'r heddlu lleol.

4. **Beth sydd angen newid mewn gofal preswyl i bobl ifanc mewn perygl o gamfanteisio a fydd yn gwella'u cyfleoedd mewn bywyd ac yn eu gwneud yn llai agored i niwed?**

Eto, gwelwyd cryn dipyn o gysondeb yn y themâu a oedd yn ymddangos o'r ymatebion. Roedd yn anochel y byddai rhywfaint o ailadrodd o ran y pwyntiau a wnaed wrth ateb y cwestiwn uchod. Rydym wedi cynnwys y rhain eto er cywirdeb ac er mwyn rhoi pwyslais priodol ar y materion sy'n codi fynych.

- **Gweithrediad cartrefi plant**
Roedd gan bobl farn o blaid ac yn erbyn cartrefi yn gofalu'n benodol am bobl ifanc mewn perygl o gael eu camfanteisio'n rhywiol. Credai'r rhai hynny a oedd o blaid y gall pobl ifanc eraill fod yn fwy agored i niwed pan fydd unigolyn ifanc mewn perygl o gael ei gamfanteisio'n rhywiol yn mynd ar goll gyda phlant eraill o'r cartref. Credai'r rhai hynny a oedd yn erbyn y dylai pob cartref plant da fod yn gymwys i ofalu am bob plentyn, gan gynnwys plant sydd mewn perygl o gael eu camfanteisio'n rhywiol.

Cafwyd llawer o atebion o ran cynyddu'r amrywiaeth o weithgareddau oedd ar gael i blant a phobl ifanc ac y dylai mwy o ymdrech gael ei gwneud i gadw cysylltiadau iach â ffrindiau a theulu yn y gymuned. Holodd un unigolyn faint o blant mewn cartrefi plant a oedd â hobïau (o'u cymharu â phlant eraill) a chredwyd fod diflastod yn ffactor mawr yr oedd angen mynd i'r afael ag ef. Dylid cynyddu lefel y cymorth a ddarperir gan staff i hwyluso gweithgareddau o'r fath a dylai'r rhain gael eu blaenoriaethu gan reolwyr oherwydd yr effaith gadarnhaol y gall y rhain ei chael ar sgiliau bywyd, hunanbarch a hyder. Byddai hyn yn rhan o ddull gweithredu sy'n seiliedig ar gryfderau, a wnaeth hefyd gael ei nodi. Disgrifiodd rhai pobl ddiwylliant rhai cartrefi fel rhai sydd â staff difater, staff ag ysgogiad isel, a dyheadau isel ar gyfer plant a phobl ifanc.

Nodwyd pwysigrwydd darparu mwy o gymorth therapiwtig i staff mewn cartrefi plant droeon. Bwriad hwn fyddai annog staff i ddatblygu model mwy seiliedig ar ymlyniad ac i ddatblygu diwylliant mwy cadarnhaol. Gallai hyn gynnwys adolygu systemau sancsiynau er mwyn gwerthuso a ydynt yn cynhyrchu newid cadarnhaol.

Credwyd ei bod hi'n bwysig iawn fod gan gartrefi fynediad at therapi i blant a phobl ifanc. Beirniadwyd y dull o drin pawb yr un peth a chafodd pwysigrwydd datblygu trefniadau rheoli wedi'u teilwra i blant unigol ei hybu. Credai rhai nad oedd gwahardd rhai pobl ifanc rhag defnyddio'r rhyngrwyd yn gyfangwbl yn syniad da, er gwaethaf y risgiau cynhenid.

- **Staff preswyl**
Byddai mwy o sefydlogrwydd yn y tîm staff, llai o drosiant a defnyddio llai o staff asiantaeth yn gwella'r canlyniadau i blant a phobl ifanc. Mewn perthynas

â hyn, dylem sicrhau ein bod yn denu pobl â digon o wydnwch, profiad bywyd a lefelau uchel o empathi i fod yn staff gofal preswyl. Mae angen i fwy o reolwyr hefyd fod â phrofiad digonol a chael cymorth. Roedd llawer o blaid sicrhau bod staff preswyl yn cael mwy o hyfforddiant. Y meysydd penodol a nodwyd oedd ymglymiad, dulliau adferol, camfanteisio'n rhywiol ar blant, rheoli ymddygiad ac ymyriadau corfforol cyfyngol.

- **Ffactorau strategol**
  Teimlai llawer o bobl fod angen strategaeth glir ar draws pob asiantaeth ar gyfer gofal pobl ifanc mewn perygl o gael eu camfanteisio'n rhywiol a oedd yn mynd ar goll ac yn cael eu lleoli y tu allan i'r ardal. Yn ogystal â hyn, teimlai pobl fod angen canllaw newydd ar ymyriadau corfforol cyfyngol a mwy o ddealltwriaeth o'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid a phobl ifanc. Nododd nifer o bobl fod angen rhannu gwybodaeth yn well am bobl ifanc benodol. Cyflwynwyd cyfathrebu gwell rhwng yr heddlu a darparwyr fel enghraifft benodol. Awgrymwyd y gallai'r Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig ymgysylltu'n fwy pan fydd pobl ifanc yn mynd ar goll.

  Credai pobl y gellid cynllunio'n well ar gyfer plant o ran gwasanaethau addysg a therapiwtig, yn enwedig CAMHS. Mae pobl yn poeni bod rhestri aros yn gallu bod yn hir, felly nid yw'r gwasanaethau bob amser ar gael i blant a leolir yn yr ardal. Cyflwynwyd neges glir hefyd ynghylch prinder lleoliadau addas i bobl ifanc gymhleth sy'n effeithio ar ddewis ac sy'n gallu arwain at wneud lleoliadau amhriodol, cryn bellter i ffwrdd. Awgrymwyd y dylai AGGCC gynnal arolygiadau yn amlach.


- **Penderfyniadau lleoli**
  Teimlai pobl y gallem barhau i wella'r ffordd yr ydym yn egluro i blant pam fod angen iddynt symud lleoliad neu ddod i mewn i'r system ofal mewn modd y gallant ei ddeall. Credai rhai pobl fod y trothwy ar gyfer symud plant a phobl ifanc rhwng lleoliadau yn rhy isel a chrybwyllwyd 'dyfalbarhad'. Credai pobl fod gormod o leoliadau brys yn cael eu gwneud ac y dylai lleoliadau arfaethedig sicrhau yn amlach fod addysg a CAMHS (pan fo angen) neu wasanaethau lleol eraill fod ar gael i'r plentyn. Crybwyllwyd fod angen i'r broses baru fod yn fwy cadarn. Nododd nifer o bobl fod angen i gomisiynwyr roi mwy o ystyriaeth i leoliad y cartrefi plant a'r ffactorau risg (troseddwyr rhywiol y gwyddid amdanynt, diwylliant gangiau ac ati).

- **Anghenion plant a phobl ifanc**
  Nodwyd pobl sy'n gadael gofal yn benodol fel grŵp y dylid rhoi mwy o gymorth iddynt gan nad yw pobl yn stopio bod yn agored i niwed pan fyddant yn 18 oed. Dywedodd rhai pobl y dylai 'pan fyddaf yn barod' gael ei ehangu i gartrefi plant a lleoedd eraill ac y dylai mwy o gymorth, gan gynnwys cymorth therapiwtig, gael ei ddarparu yn y gymuned. Nodwyd prinder adnoddau digonol mewn cysylltiad â hyn. Credai rhai pobl y gellid gwneud llawer mwy i ymgysylltu â phobl ifanc o ran yr hyn y maen nhw'n credu sy'n eu gwneud yn

agored i niwed, er mwyn ymgysylltu â nhw'n fwy yn eu cynllun gofal a nodi'r cymorth sydd ei angen arnynt fwyaf.  Mae hyn yn gyson â'r broses o sefydlu 'beth sy'n bwysig' o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru).


## Atodiad

### C1.Beth yw'r rhwystrau i waith amlasiantaeth effeithiol o ran pobl a leolir y tu allan i ardal sy'n mynd ar goll ac sydd mewn perygl o niwed a chamfanteisio?





- Y thema fwyaf gyffredin ymhlith yr atebion i'r cwestiwn uchod oedd cyfathrebu. Roedd hyn yn cynnwys y problemau o ran diffyg gwybodaeth yn cael ei rhannu ar draws gwaith amlasiantaeth
- Nodwyd problemau hefyd o ran y berthynas a'r cyfrifoldeb rhwng pob asiantaeth a'r plant cysylltiedig. Mae hyn wedi arwain plant i fethu ag ymddiried yn y systemau sydd ar waith i'w diogelu
- Mae nifer o'r atebion wedi'u rhoi o dan y categori 'arall' oherwydd nid oedd modd eu nodi o dan y themâu dewisol megis 'problemau masnachol' ac ati
- Ymddengys nad oes digon o leoliadau ar gael ac nid ydynt bob amser yn addas i anghenion yr unigolyn ifanc. Gallai lleoli plant y tu allan i'r ardal roi plant sy'n agored i niwed mewn mwy o berygl, ac mae hyn yn destun pryder i'r asiantaethau. O ganlyniad i brinder lleoliadau lleol, caiff y broses cyn-gynllunio ei harafu, sy'n arwain at anhawster cyfathrebu rhwng asiantaethau
- Mae'r ddeddfwriaeth yn wahanol yng Nghymru a Lloegr, sy'n ei gwneud hi'n anodd i awdurdodau lleol weithio gyda'i gilydd
- Mae angen i weithwyr proffesiynol yng Nghymru a Lloegr gynnal asesiadau risg priodol er mwyn diogelu plant
- Cyfyngiadau ariannu.

**C2.Beth sydd ei angen i greu a chyfrannu at waith amlasiantaeth effeithiol ar gyfer y garfan hon o bobl ifanc?**





- Mae diffyg cyfathrebu rhwng asiantaethau a phobl ifanc yn nodwedd gyffredin ar draws yr atebion. Agwedd bwysig ar hyn oedd yr angen i gael llwyfan gytunedig i bob asiantaeth gyfathrebu'n effeithiol â'i gilydd ac i greu strwythur seiliedig ar amser y gallai pawb gadw ato
- Mae sicrhau bod system gymorth ragweithiol ar waith rhwng yr asiantaethau a'r bobl ifanc yn dueddiad aml. Bydd meithrin perthynas gyda'r bobl ifanc yn hyrwyddo llawer o ddealltwriaeth o ba adnoddau sydd ar gael iddynt a'r hyn sydd ei angen i annog ymddiriedaeth yn yr asiantaethau. Roedd problemau eraill a godwyd yn cynnwys yr angen am fwy o ddiogelu a gwybodaeth i'r cyhoedd am faterion megis camfanteisio'n rhywiol ar blant
- Cafodd y thema a oedd yn ymwneud â lleoliadau ymateb tebyg i C1, gyda ffactor amlwg yn ymdrin â'r angen i leihau risgiau uwch lleoliadau y tu allan i'r sir
- Canllawiau mwy eglur rhwng asiantaethau, parthed deddfwriaeth a gweithdrefnau. Hyfforddiant amlasiantaeth i helpu i ddeall rolau a chyfrifoldebau ei gilydd
- Mae'r agwedd ariannol yn chwarae rhan yn y penderfyniad o le y caiff unigolyn ifanc ei leoli.

**C3.Pa agweddau ar gymorth mewn gofal preswyl i bobl ifanc mewn perygl sy'n ei gwneud hi'n fwy tebygol y byddant yn cyflawni canlyniadau cadarnhaol a llesiant gwell?**




- Cynnal addysg o safon uchel ar draws pob asiantaeth a sicrhau bod staff yn teimlo'u bod yn cael eu cefnogi a'u hyfforddi'n dda o fewn eu rôl. Bydd cynnal morâl uchel ar draws asiantaethau yn cynyddu ysgogiad ac yn galluogi staff i fod yn fwy rhagweithiol
- Gwneud yn siŵr bod pob asiantaeth yn deall anghenion y plant ac yn ymrwymo i fuddsoddi amser ym mhob plentyn. Addasu eu dull gweithredu a'u hiaith bersonol wrth ymdrin â phobl ifanc, gan greu awyrgylch hamddenol
- Mae'r problemau a godwyd parthed lleoliadau yn debyg i'r cwestiynau blaenorol
- Dylai'r plant gymryd rhan ym mhob rhan o'r broses er mwyn creu eglurder wrth wneud penderfyniadau. Mae'r cyfathrebu hyn yn creu dealltwriaeth well o'r plentyn
- Cyfyngiadau ariannu.

**C4. Beth sydd angen newid mewn gofal preswyl i bobl ifanc mewn perygl o gamfanteisio a fydd yn gwella'u cyfleoedd mewn bywyd ac yn eu gwneud yn llai agored i niwed?**




- CAMHS fod yn gysylltiedig ar bwynt atgyfeirio ac mae angen cymorth gan ddarparwyr iechyd. Ehangu'r cymorth i blant ar ôl iddynt gyrraedd 18 oed. Annog plant i ymuno â grwpiau megis timau chwaraeon neu ddosbarthiadau i'w helpu i ddatblygu sgiliau bywyd. Sicrhau bod gan y plentyn ddealltwriaeth glir o'r therapi y mae'n ei gael
- Asesiadau o ba mor agored i niwed yw'r cartref, megis gwybodaeth am y troseddwyr rhyw yn yr ardal. A yw cartrefi preswyl arbenigol sy'n ymdrin â chamfanteisio'n rhywiol ar blant yn gwneud plant yn fwy agored i niwed? Dylai pob cartref fod yn gymwys i ymdrin â materion megis camfanteisio'n rhywiol ar blant fel mater o drefn
- Mae angen rhannu gwybodaeth leol gyda'r cartrefi plant. Mae angen i nifer o asiantaethau weithio gyda'i gilydd i rannu gwybodaeth a phryderon am blant penodol
- Buddsoddi mewn hyfforddiant a chymorth i staff, sy'n creu gofal parhaus i'r plant. Gyda'r hyfforddiant angenrheidiol, bydd staff yn gallu ymdrin â materion megis ymddygiad a chamfanteisio'n rhywiol ar blant mewn modd priodol.